


# PR19 penderfyniadau drafft

**Blaenoriaethau Llywodraeth Cymru a'n  
dyfarniadau drafft ar gyfer adolygiad  
prisiau 2019**



## Cynnwys

1. Rhagymadrodd .....	2
2. Amcanion Llywodraeth Cymru ar gyfer Ofwat .....	4
3. Blaenoriaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y sector dŵr .....	10

## 1. Rhagymadrodd

Bydd gan y penderfyniadau drafft ar gyfer adolygiad prisiau 2019 (PR19) ran bwysig mewn cyfrannu at gyflawni blaenoriaethau ac amcanion strategol Llywodraeth Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod [blaenoriaethau ac amcanion strategol](#) ar ein cyfer,<sup>1</sup> a fabwysiadwyd ym mis Ionawr 2018. Mae'n ofynnol i ni weithredu yn unol â'r blaenoriaethau a'r amcanion hyn wrth gyflawni ein swyddogaethau perthnasol sy'n gysylltiedig yn gyfan gwbl neu'n bennaf â Chymru. Yn y ddogfen hon, byddwn yn trafod sut y bydd penderfyniadau drafft PR19 ar gyfer 'Cwmnïau Cymreig' (cwmnïau y mae eu hardaloedd yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru) yn cefnogi cyflawni'r blaenoriaethau a'r amcanion hynny (y cyfeiriwn atynt fel 'datganiad polisi strategol' Llywodraeth Cymru).

Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod pum **amcan** ar gyfer Ofwat sy'n berthnasol i'r ddogfen hon:<sup>2</sup>

1. Rydym yn disgwyl i Ofwat ddatblygu'r fframwaith rheoleiddio fel y mae'n berthnasol i Gymru ar sail tystiolaeth gadarn berthnasol yng nghyd-destun Cymru. Mae'n rhaid iddo ddangos sut y mae wedi ystyried yr amgylchiadau sy'n benodol i Gymru wrth ddatblygu cynigion newydd sy'n berthnasol i Gymru ac ymgynghori arnynt. Pan fo'n briodol, dylai fabwysiadu dull gwahanol ar gyfer ymgwymerwyr a reoleiddir gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru.
2. Rydym yn disgwyl i Ofwat herio cwmnïau i gyflawni ar gyfer cwsmeriaid yn seiliedig ar gymariaethau rhwng cwmnïau yng Nghymru ac yn Lloegr, ac ar draws sectorau pan fo'n briodol. Dylai ganiatáu ar gyfer y gwahaniaethau yn yr amgylcheddau gweithredol a chyfreithiol sydd gan gwmnïau yng Nghymru, ac ystyried amrywiaethau yn y blaenoriaethau sydd gan gwsmeriaid a rhanddeiliaid eraill
3. Rydym yn disgwyl i Ofwat roi sylw dyledus i wahaniaethau yn y presennol ac yn y dyfodol ym mholisiau a chyfreithiau'r DU a Llywodraeth Cymru, gan gynnwys pan fo rhwymedigaethau newydd ar gyfer cwmnïau dŵr yng Nghymru.
4. Dylai Ofwat ystyried sut i alluogi neu annog cwmnïau i gyfrannu at gyflawni polisi a strategaethau Llywodraeth Cymru. Dylai Ofwat nodi'n glir sut y mae unrhyw un

---

<sup>1</sup> Gwnaethpwyd hynny o dan adran 2B Deddf Diwydiant Dŵr 1991, fel y'i diwygiwyd gan adran 24 Deddf Dŵr 2014.

<sup>2</sup> Mae'r amcan terfynol yn datgan y dylai Ofwat gyflwyno adroddiad blynyddol i Weinidogion Cymru. Mae hyn y tu allan i gwmpas penderfyniad drafft PR19 ac felly nid yw wedi'i gynnwys yma.

o'i benderfyniadau mawr yn gyson ag amcanion a blaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru, er enghraifft, wrth osod y fethodoleg ar gyfer adolygu prisiau, cyflwyno cynigion am newidiadau i'r fframwaith rheoleiddio megis newidiadau i amodau penodi ymgwymerwyr, neu gyhoeddi penderfyniadau.

5. Dylai Ofwat ystyried a yw ei fframwaith rheoleiddio yn glir ac yn gydlynol ar y cyfan ac mewn cyd-destun penodol i Gymru. Dylai Ofwat roi sylw i ddymunoldeb fframwaith rheoleiddio sy'n syml, effeithiol ac effeithlon. Dylai Ofwat geisio cynnal fframwaith rheoleiddio sy'n dryloyw ac yn caniatáu i gwmnïau, buddsoddwyr a chwsmeriaid gynllunio ar gyfer y tymor hir, gan annog gwelliannau o ran effeithlonrwydd.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi gosod **blaenoriaethau** ar gyfer rheoleiddiad economaidd y sector dŵr yng Nghymru o dan y saith pennawd canlynol:

- fforddiadwyedd;
- arloesedd;
- y tymor hir;
- marchnadoedd a chystadleuaeth;
- cydnerthedd;
- canolbwyntio'n gryf ar gwsmeriaid; a
- rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.

Bu gan amcanion a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru rôl bwysig wrth lunio'r penderfyniadau a wnaethom trwy gydol y broses adolygu prisiau. Pan gyhoeddodd ein methodoleg PR19 derfynol, rydym **yn nodi sut** y byddai'r fethodoleg honno'n cyfrannu at gyflawni blaenoriaethau ac amcanion strategol Llywodraeth Cymru. Roedd ein hasesiad cychwynnol o gynlluniau busnes wedi gwerthuso cynlluniau cwmnïau yn erbyn y fethodoleg honno. Nawr, rydym yn gwneud ein penderfyniadau drafft. Mae hyn yn golygu ein bod yn rhoi ein methodoleg ar waith ac yn gweithredu yn unol â blaenoriaethau ac amcanion strategol y llywodraeth.

Mae'r ddogfen hon yn cychwyn drwy amlinellu sut mae ein hymagwedd tuag at benderfyniadau drafft PR19 yn cyd-fynd ag amcanion Llywodraeth Cymru ar gyfer Ofwat. Mae gweddill y ddogfen yn amlinellu sut mae ein penderfyniadau drafft ar gyfer cwmnïau yng Nghymru yn cefnogi cyflawni blaenoriaethau Llywodraeth Cymru.

## 2. Amcanion Llywodraeth Cymru ar gyfer Ofwat

### Amcan

**Rydym yn disgwyl i Ofwat ddatblygu'r fframwaith rheoleiddio fel y mae'n berthnasol i Gymru ar sail tystiolaeth gadarn berthnasol yng nghyd-destun Cymru. Mae'n rhaid iddo ddangos sut y mae wedi ystyried yr amgylchiadau sy'n benodol i Gymru wrth ddatblygu cynigion newydd sy'n berthnasol i Gymru ac ymgynghori arnynt. Lle y bo'n briodol, dylai fabwysiadu dull gwahanol ar gyfer ymgwymerwyr a reoleiddir gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru.**

Mae ein methodoleg PR19 yn ystyried yr amgylchiadau penodol yn llawn yng Nghymru, gan gynnwys y gofynion cyfreithiol penodol yng Nghymru. Mae'n ofynnol i gwmnïau dŵr Cymru ddatblygu cynlluniau busnes i fynd i'r afael ag anghenion eu cwsmeriaid a'r amgylchedd yng Nghymru. Mae methodoleg PR19 yn rhoi cyfle sylweddol i gwmnïau yng Nghymru ddatblygu cynlluniau busnes ac ymrwmo i berfformio mewn modd sy'n adlewyrchu anghenion a dewisiadau penodol cwsmeriaid yng Nghymru. Rydym wedi asesu cynlluniau busnes cwmnïau yng Nghymru yn erbyn sut maent yn bwriadu cyflawni anghenion cwsmeriaid yng Nghymru a'r amgylchedd yn ystod 2020-25 ac yn y tymor hir.

Wrth wneud ein penderfyniadau drafft, rydym wedi ystyried amgylchiadau penodol Cymru. Rydym hefyd wedi ystyried polisi cyfredol Llywodraeth Cymru. Er enghraifft, yn ein dull ar gyfer marchnadoedd yng Nghymru, rydym wedi ystyried barn Llywodraeth Cymru y dylai datblygu marchnadoedd gadw atebolrwydd cyffredinol ar gyfer cyflwyno gwasanaethau rhagorol i gwsmeriaid a'r amgylchedd, yn ogystal ag uniondeb ac effeithlonrwydd rheoli'r systemau rhwydwaith cyfan.

Mae ein penderfyniadau drafft hefyd yn ystyried meysydd penodol y mae Llywodraeth Cymru wedi'u blaenoriaethu. Er enghraifft, yn dilyn tystiolaeth o gefnogaeth gref gan gwsmeriaid Hafren Dyfrdwy, a'r angen am fuddsoddi gan Ddŵr Cymru, rydym yn caniatáu mwy o arian i'r ddau gwmni o Gymru i gael gwared â phibellau plwm o'r rhwydwaith cyflenwi dŵr; mae hyn yn unol â blaenoriaeth Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r peryglon o blwm fel y'u nodir yn y [Strategaeth Ddŵr ar gyfer Cymru](#) (2015). Yn ogystal, rydym yn caniatáu i fuddsoddiad Dŵr Cymru a Hafren Dyfrdwy weithredu safonau diogelwch gwell sy'n codi o'r Ddeddf Cronfeydd Dŵr (1975) (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010) ar y cyflymdra a ddisgwylyr gan Gyfoeth Naturiol Cymru.

**Ancan**

**Rydym yn disgwyl i Ofwat herio cwmnïau i gyflawni ar gyfer cwsmeriaid yn seiliedig ar gymariaethau rhwng cwmnïau yng Nghymru ac yn Lloegr, ac ar draws sectorau pan fo'n briodol. Dylai ganiatáu ar gyfer y gwahaniaethau yn yr amgylcheddau gweithredol a chyfreithiol sydd gan gwmnïau yng Nghymru, ac ystyried amrywiaethau yn y blaenoriaethau sydd gan gwsmeriaid a rhanddeiliaid eraill**

Mae ein dull PR19 wedi rhoi pwyslais cryf ar ddadansoddiad cymharol o gynlluniau cwmnïau, lle bo'n briodol. Er mwyn sefydlu targedau gwirioneddol uchelgeisiol, mae cynlluniau busnes cwmnïau yng Nghymru wedi'u cymharu â:

- Chwmnïau yn Lloegr - Mae gan ein rheolaeth prisiau yr un strwythur eang ledled Cymru a Lloegr. Mae hyn wedi caniatáu i gwmnïau yng Nghymru gael eu cymharu yn erbyn ystod ehangach o gwmnïau, gan ganiatáu i dargedau mwy uchelgeisiol gael eu gosod, sydd o fudd i gwsmeriaid yng Nghymru. Dau faes lle mae cymharu rhwng cwmnïau wedi bod yn arbennig o bwysig yw:
  - ymrwymïadau perfformiad cyffredin - sy'n caniatáu i gwsmeriaid a rhanddeiliaid gymharu perfformiad cwmnïau unigol â gweddill y sector; a
  - meincnodi cost - rydym wedi defnyddio data gan bob cwmni i osod gwaelodlinau cost uchelgeisiol, tra'n ystyried gwahaniaethau dilyn mewn maint ac amgylchedd gweithredu.
- Sectorau eraill - Yn ystod y cyfnod 2020-2025, cymharir perfformiad gwasanaeth cwsmeriaid cwmnïau yng Nghymru â pherfformiad cwmnïau mewn sectorau eraill drwy fecanweithiau cymhelliant PR19 a elwir yn Fesurau Profiad Cwsmeriaid a Datblygwyr (C-MeX a D-MeX). Er mwyn cyflawni taliadau perfformiad uwch, bydd yn rhaid i gwmnïau ddangos perfformiad cyfartal i'r cwmnïau gorau yn yr economi ehangach (fel y'u mesurir gan drothwy traws-sector).

Trwy'r cymariaethau hyn rydym wedi gwneud asesiadau cadarn o gryfderau cymharol cynlluniau cwmnïau yng Nghymru.

Mae Hafren Dyfrdwy yn parhau i ddangos perfformiad sy'n arwain y sector ar gostau, gyda lwfans cyfanswm gwariant (totex) mewn penderfyniadau drafft sydd £4.9m yn uwch na'r cynigion sydd wedi'u cynnwys yn ei gynllun busnes ym mis Ebrill. Er bod y pecyn canlyniadau a gynigiodd y cwmni ym mis Ebrill yn cynnwys gwell perfformiad ar leihau defnydd fesul pen a chafodd wared â rhai taliadau sy'n perfformio'n well, rydym yn ystyried bod angen ymyriadau. Yn benodol, rydym yn ymyrryd i gynyddu cyfraddau cymhelliant i gyflawni canlyniadau (tanberfformio yn ogystal â chyfraddau sy'n perfformio'n well lle y bo'n berthnasol) ar gyfer nifer o ymrwymïadau perfformiad gan

gynnwys gollyngiadau dŵr, carthffosyddion yn cwmpo, llygredd, cysylltiadau dŵr afluw a llifogydd carthffosydd mewnol.

Roedd cynllun Dŵr Cymru ym mis Medi yn amlwg yn arwain y sector yn y maes prawf hyder a sicrwydd yn ystod ein hasesiad cychwynnol o gynlluniau busnes, a oedd yn ystyried meysydd fel cydnerthedd ariannol a goruchwyliaeth bwrdd. Yn benodol, roedd yn cynnig mecanwaith rhannu pwrpasol ac uchelgeisiol a ymrwymodd i rannu hanner yr holl daliadau ymrwymadau i berfformio gyda'i gwsmeriaid. Cynigodd hefyd y byddai'n cyfrannu £85 miliwn i gefnogi tariffau cymdeithasol, a chyfrannu'n ychwanegol at gronfeydd caledi. Fodd bynnag, yn ei gynllun busnes ym mis Ebrill parhaodd y cwmni i gynnig gwelliant arwyddocaol i'r cyllid ac, mewn rhai achosion, gwrthododd ymrwymadau'r chwarterl uchaf. Rydym felly'n herio y gwelliannau yng ngwariant Dŵr Cymru ar sail cwmphas y gwaith, y dystiolaeth a ddarperir, ac effeithlonwydd y ddarpariaeth. Rydym hefyd yn ymyrryd i ofyn bod y cwmni'n cyrraedd lefelau perfformiad y chwarterl uchaf ar gyfer defnydd fesul pen, toriadau yn y cyflenwad dŵr, digwyddiadau llygredd, a llifogydd carthffosyddion mewnol, ac i ofyn i Dŵr Cymru ymrwymo i welliant o 25% mewn llifogydd carthffosyddion allanol, yn unol â chwmnïau eraill.

Mae ein penderfyniadau drafft yn seiliedig ar gynlluniau busnes y cwmni, a ddatblygwyd gan gwmnïau yng Nghymru trwy ymgysylltu â chwsmeriaid a rhanddeiliaid yng Nghymru. Mae ein dull, felly, yn annog y cynlluniau busnes i ystyried anghenion penodol cwsmeriaid yng Nghymru a'r amgylchedd. Pan fo'r cynlluniau'n methu â chwrrdd ag anghenion cwsmeriaid yng Nghymru a'r amgylchedd, rydym yn ymyrryd.

Mae ein [polisi ymgysylltu â chwsmeriaid](#) yn nodi disgwyliadau o ran cwmnïau'n rhannu gywbodaeth gymharol ynghylch perfformiad cwmnïau gyda diffiniadau cyson. Arweiniodd yr ymgynghoriad yn 2016 at weithredu'r dangosfwrdd [Discover Water](#), a gyflwynwyd gan Water UK Mae aelodau Discover Water yn gyflenwyr gwasanaeth dŵr a dŵr gwastraff y DU ar gyfer Lloegr, yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon.

Rydym wedi gwthio cwmnïau i ddangos eu bod yn rhoi eu cwsmeriaid wrth wraidd eu cynllun busnes wrth wneud newidiadau yn raddol i ystod ac ansawdd y broses o ymgysylltu â chwsmeriaid. Mae'r ffocws hwn ar ymgysylltu â chwsmeriaid wedi arwain at gwmnïau yng Nghymru yn ystyried yr amrywiadau ym mlaenoriaethau eu cwsmeriaid.

Yn olaf, edrychom am sicrwydd annibynnol gan grwpiau herio cwsmeriaid ynghylch ansawdd pob cwmni yn y broses o ymgysylltu â chwsmeriaid ac i ba raddau y mae barn cwsmeriaid yn cael eu hadlewyrchu yng nghynlluniau'r cwmni. Mae aelodaeth grwpiau herio cwsmeriaid cwmnïau yng Nghymru'n cynnwys sefydliadau ac unigolion sydd â dealltwriaeth benodol o gwsmeriaid yng Nghymru a materion Cymreig. Mae'r rhain yn cynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru, y corff rheoleiddio a phrif ymgynghorydd Llywodraeth

Cymru ar faterion amgylcheddol, yn ogystal â'r Cyngor Defnyddwyr Dŵr, cynrychiolydd statudol defnyddwyr dŵr.

**Amcan**

**Rydym yn disgwyl i Ofwat roi sylw dyledus i wahaniaethau yn y presennol ac yn y dyfodol ym mholisiau a chyfreithiau'r DU a Llywodraeth Cymru, gan gynnwys pan fo rhwymedigaethau newydd ar gyfer cwmnïau dŵr yng Nghymru.**

Mae ein penderfyniadau drafft PR19 yn ystyried yn briodol y gwahaniaethau yn y polisi yn ogystal â'r gyfraith rhwng Llywodraeth Cymru a'r DU. Er enghraifft, mae gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys Ofwat a chwmnïau dŵr Cymru, ddyletswydd bioamrywiaeth o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 mewn perthynas â Chymru. Mae'r ddyletswydd bioamrywiaeth o dan y ddeddf hon yn wahanol i'r ddyletswydd bioamrywiaeth sy'n gymwys o dan Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006 mewn perthynas â Lloegr. Mae Hafren Dyfrdwy, er enghraifft, yn cynnig ymrwymiad perfformiad pwrpasol ynghylch hectarau a reolir ar gyfer bioamrywiaeth.

Mae'r ddau gwmni yng Nghymru yn cynnig ymrwymïadau perfformiad pwrpasol sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau Cymraeg. Mae hyn yn unol â nod polisi Llywodraeth Cymru, a nodwyd yn eu [Cymraeg 2050 strategaeth y Gymraeg](#), o gynyddu'r amrywiaeth o wasanaethau a gynigir i siaradwyr Cymraeg.

Rydym hefyd wedi'i gwneud hi'n ofynnol i fyrddau cwmnïau roi sicrwydd y bydd eu cwmni'n parhau i gydymffurfio â'u rhwymedigaethau statudol a rhwymedigaethau eu trwydded, nawr, ac yn y dyfodol. Bydd ein penderfyniadau drafft yn cynorthwyo cwmnïau i reoli newid i rwymedigaethau statudol yn y dyfodol fel bod cwmnïau'n parhau i allu ariannu eu swyddogaethau, tra'n diogelu cwsmeriaid.

Mae ein penderfyniadau drafft yn gyson â pholisi Llywodraeth Cymru o ran cystadleuaeth. Er enghraifft:

- Nid ydym wedi ymestyn cystadleuaeth manwerthu busnes i gwsmeriaid dŵr gwastraff a chwsmeriaid sy'n defnyddio llai na 50 miliwn litr o ddŵr y flwyddyn - felly byddwn yn diogelu'r cwsmeriaid hyn drwy osod rheolaeth refeniw gyfartalog yn seiliedig ar faint elw net.
- Nid ydym wedi cyflwyno cystadleuaeth i fyny'r gadwyn gyflenwi - mae hyn yn caniatáu i ni beidio â rhoi baich rheoleiddiol ychwanegol ar gwmnïau yng Nghymru na fyddai wedi derbyn clod yn yr amgylchiadau (er enghraifft, nid ydym wedi cynnwys yr addasiad ar gyfer mynediad marchnad ddwyochrog a chyrcu gofynion adrodd am brisio).



**Amcan**

**Dylai Ofwat ystyried sut i alluogi neu annog cwmnïau i gyfrannu at gyflawni polisi a strategaethau Llywodraeth Cymru. Dylai Ofwat nodi'n glir sut y mae unrhyw un o'i brif benderfyniadau'n gyson ag amcanion a blaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru, er enghraifft, wrth osod y fethodoleg ar gyfer adolygu prisiau, cyflwyno cynigion am newidiadau i'r fframwaith rheoleiddio megis newidiadau i amodau penodi ymgwymerwyr, neu gyhoeddi penderfyniadau.**

Mae'r ddogfen hon yn nodi sut mae ein dull wedi ystyried cyd-destun Cymru. Yn ogystal, rydym wedi ystyried yn ofalus gyd-destun ehangach amcanion polisi Llywodraeth Cymru, megis y rhai hynny a gyflwynwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Adlewyrchwyd hyn yn ein methodoleg derfynol PR19, lle pwysleisiwyd ein dull at gydnerthedd tymor hir. Adlewyrchir y dull hwn hefyd yn y saith egwyddor cydnerthedd y disgwyliwn i gwmnïau eu cynnwys yn eu cynlluniau busnes. Yn ein penderfyniadau drafft, rydym wedi ymyrryd, lle bo angen, i sicrhau y mabwysiadir ein dull tuag at gydnerthedd. Byddwn yn parhau i dderbyn cynlluniau cydnerthedd diwygiedig gan gwmnïau yn yr haf.

Mae nifer o'r ymrwymïadau perfformiad cyffredin a phwrpasol rydym am i gwmnïau ymrwymo iddynt wedi'u cynllunio i gymell dull tymor hir at gydnerthedd, yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (gweler blaenoriaeth 'Tymor Hir' isod).

Yn ogystal, mae ein dull o ymdrin â chynaliadwyedd amgylcheddol wedi'i lywio gan bolisi perthnasol yng Nghymru, gan gynnwys [Adroddiad o Gyflwr Adnoddau Naturiol](#) Cyfoeth Naturiol Cymru a [Strategaeth Ddŵr ar gyfer Cymru](#) Llywodraeth Cymru.

**Amcan**

**Amcan: Dylai Ofwat ystyried a yw ei fframwaith rheoleiddio yn glir ac yn gydlynol ar y cyfan ac mewn cyd-destun penodol i Gymru. Dylai Ofwat roi sylw i ddymunoldeb fframwaith rheoleiddio sy'n syml, effeithiol ac effeithlon. Dylai Ofwat geisio cynnal fframwaith rheoleiddio sy'n dryloyw ac sy'n caniatáu i gwmnïau, buddsoddwyr a chwsmeriaid gynllunio ar gyfer y tymor hir, gan annog gwelliannau o ran effeithlonrwydd.**

Mae ein penderfyniadau drafft yn adlewyrchu ein hegwyddorion rheoli prisiau parhaus, a nodwyd gennym yn ein hadolygiad prisiau diwethaf. Mae'r egwyddorion hyn yn cynnwys:

- gwell egwyddorion rheoleiddio ar gyfer rheolaethau prisiau wedi'u targedu;
- gosod prisiau cymesur;
- cymhellion effeithiol; a
- thryloywder a rhagfynegadwyedd.

O'n hymgyngoriad cychwynnol, *Delivering Water 2020*, i'n methodoleg ddrafft; a, nawr, yn ein penderfyniadau drafft, rydym wedi rhoi pwyslais ar dryloywder ac ymgynghori yn ein dull at PR19. Mae'r ymgynghoriadau ar ein penderfyniadau drafft yn ymgynghoriadau cyhoeddus ac yn agored i'r holl randdeiliaid.

Trwy gydol proses PR19, rydym wedi ymgysylltu â rhanddeiliaid yng Nghymru er mwyn ystyried cyd-destun penodol Cymru yn llawn. Mae'r rhanddeiliaid hyn yn cynnwys:

- Llywodraeth Cymru;
- Cyfoeth Naturiol Cymru; a
- cwmnïau eraill yng Nghymru.

Rydym hefyd wedi ymgysylltu â rhanddeiliaid cwmnïau a chyrrff anllywodraethol yng Nghymru fel rhan o Fforwm PR19 Llywodraeth Cymru. Hoffwn ddiolch iddynt am eu cyfraniad.

Fel y nodir yn yr adran ynghylch blaenoriaeth 'Tymor Hir' Llywodraeth Cymru isod, rydym yn herio cwmnïau i gynllunio ar sail tymor hir. Rydym yn disgwyl i gynlluniau busnes cwmnïau adlewyrchu strategaethau tymor hwy a'u cynlluniau rheoli adnoddau dŵr.

Yn olaf, rydym yn cymhell cwmnïau i fod yn fwy effeithlon drwy ystyried tystiolaeth ehangach o enillion effeithlonrwydd a newid ffin, i ysgogi newid sylweddol mewn effeithlonrwydd ar draws y sector. Rydym yn datblygu ein barn ynghylch y lwfans cyfanswm gwariant effeithlon (totex) drwy feincnodi cwmnïau dŵr i'r cwmnïau mwyaf effeithlon yn y sector. Rydym yn herio cynigion buddsoddi cwmnïau i sicrhau bod cwsmeriaid yn talu am fuddsoddiad effeithlon yn unig a'u bod wedi'u diogelu os na chaiff y buddsoddiad ei gyflawni.

### 3. Blaenoriaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y sector dŵr

Blaenoriaeth

#### Fforddiadwyedd

Fforddiadwyedd yw un o themâu allweddol PR19. Mae'r Cyngor Defnyddwyr Dŵr yn adrodd bod 77% o gwsmeriaid cwmnïau yng Nghymru'n cytuno bod eu taliadau dŵr a/neu garthffosiaeth yn fforddiadwy.<sup>3</sup> I'r cwsmeriaid hynny yng Nghymru nad ydynt yn ystyried eu biliau i fod yn fforddiadwy, rydym yn mynd ymhellach nag unrhyw adolygiad prisiau arall i sicrhau y'u diogelir. Rydym yn ystyried fforddiadwyedd yn y tymor byr yn ogystal â'r tymor hir (gweler blaenoriaeth 'Tymor Hir' isod).

Yn ein methodoleg derfynol ar gyfer PR19, rydym yn nodi'r pum egwyddor y byddem yn asesu cynlluniau cwmnïau yn eu herbyn ynghylch gwella fforddiadwyedd:

- ymgysylltu â chwsmeriaid;
- cymorth cwsmeriaid;
- effeithiolrwydd;
- effeithlonrwydd; a
- hygyrchedd i gwsmeriaid sy'n ei chael hi'n anodd talu.

Rydym yn gwthio cwmnïau i wella eu heffeithlonrwydd i sicrhau bod cwsmeriaid yng Nghymru'n talu pris teg am y gwasanaeth maent yn ei dderbyn. Rydym yn meincnodi cwmnïau (o fewn y sector, ac yn erbyn sectorau eraill, lle bo hynny'n briodol) i asesu effeithlonrwydd cost a gosod gwaelodlinau cost effeithlon ac uchelgeisiol. Rydym hefyd yn herio ymrwymadau ansawdd gwasanaeth cwmnïau yng Nghymru trwy ein hasesiad canlyniadau, fel bod cwsmeriaid yn cael gwerth da am eu harian. Ac rydym yn gosod cost cyfalaf i lefel is nag erioed o'r blaen i'r sector, a fydd yn helpu i leihau biliau cyn chwyddiant.

---

<sup>3</sup> [Water Matters](#) 2019, tud. 47

## Mae ein penderfyniadau drafft yn gwneud gwasanaethau dŵr yn fwy fforddiadwy, trwy:



**Gostyngiad o 14% mewn biliau cyn chwyddiant i gwsmeriaid yng Nghymru:** Drwy leihau'r bil cyfartalog, rydym yn gwneud dŵr yn fwy fforddiadwy i gwsmeriaid, gan gynnwys y rhai sy'n ei chael hi'n anodd talu. Ysgogir hyn gan ein cost cyfalaf is a'n her effeithlonrwydd.



**Mesurau cymorth ychwanegol ar gyfer y rhai hynny sy'n ei chael hi'n anodd talu eu biliau:** Mae cwmnïau yng Nghymru wedi ymgysylltu â'u cwsmeriaid ynghylch manteision tariffau cymdeithasol ac maent yn bwriadu cynyddu nifer y cwsmeriaid a gefnogir. Erbyn 2025, dylai 164,000 o gwsmeriaid yng Nghymru dderbyn cymorth trwy dariffau cymdeithasol a WaterSure Cymru.



**Dulliau newydd o ddelio â dyled sy'n broblem:** Mewn perthynas â delio â dyled, mae Hafren Dyfrdwy yn datgan y bydd yn cynnig 'paru taliadau', lle mae'r cwmni'n rhyddhau dyled i gwsmeriaid sy'n gwneud taliadau rheolaidd.

Arloesedd yw un o'r themâu allweddol ar gyfer PR19. Mae arloesedd yn hanfodol i alluogi cwmnïau yng Nghymru gyflawni yn erbyn y nodau polisi uchelgeisiol i Gymru, yn ogystal â darparu buddion i gwsmeriaid, yr amgylchedd a'r gymdeithas ehangach. Drwy

gydol proses PR19, rydym wedi ceisio cymell cwmnïau i gynhyrchu cynlluniau uchelgeisiol ac arloesol drwy gymhellion ariannol ac enw da.

Wrth ddadansoddi holl gynlluniau busnes y cwmni, gwelsom rai enghreifftiau o uchelgais ac arloesedd, ond yn gyffredinol roedd y dystiolaeth a gyflwynwyd gan gwmnïau'n gyfyngedig. Fodd bynnag, dangosodd Dŵr Cymru ddiwylliant arloesol sefydledig a dangosodd ddull arloesol, uchelgeisiol o ansawdd uchel tuag at reoli systemau draenio a dŵr gwastraff mewn modd integredig a chynaliadwy er enghraifft trwy eu strategaeth GlawLif yng nghanol Llanelli, lle mae cwrs 20% o'r systemau draenio trefol wedi'u troi i gyrsiau dŵr naturiol gan ddefnyddio seilwaith gwyrdd fel planhigion ar ochr y ffordd, coed, basnau a phantiau mwy. Yn yr un modd, yng Ngogledd Cambrian, mae Dŵr Cymru wedi troi cwrs y dŵr sy'n rhedeg o'r briffordd a'r toeon i mewn i fasn newydd sy'n ei reoli i gael ei ryddhau'n araf i'r amgylchedd naturiol. Mae'r cwmni hefyd wedi defnyddio gweithio mewn partneriaeth a marchnadoedd i gefnogi cyflawni'r canlyniadau'n effeithiol.

Bydd gan arloesedd rôl bwysig wrth alluogi Dŵr Cymru a Hafren Dyfrdwy i gyflawni'r her effeithlonrwydd gref a'r ymrwymadau perfformiad uchelgeisiol a gynigiwn fel rhan o'r penderfyniadau drafft i leihau gollyngiadau dŵr, lleihau defnydd fesul pen a chael gwared â chyfathrebu ynghylch plwm a phibellau cyflenwi sy'n eiddo i gwsmeriaid i leihau'r plwm sydd mewn dŵr tap yn nhapiau cwsmeriaid lle canfyddir crynodiad plwm uwch na 5 µg / l.

### **Mae ein penderfyniadau drafft yn cefnogi arloesedd yn y sector dŵr yng Nghymru, trwy:**



#### **Fframwaith cymhellion sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau:**

Bydd angen i gwmnïau dŵr weithredu mewn modd arloesol i fynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu'r sector yng Nghymru o ganlyniad i newid yn yr hinsawdd, tra'n gwella fforddiadwyedd. Mae ein fframwaith canlyniadau yn rhoi hyblygrwydd a rhyddid i weithredu mewn modd arloesol ac i ddatblygu atebion sy'n adlewyrchu'r hyn sy'n well gan eu cwsmeriaid a'u cymunedau. Trwy osod ymrwymadau uchelgeisiol o ran perfformiad canlyniadau, rydym yn herio cwmnïau yng Nghymru i weithredu mewn modd arloesol ac i fynd gam ymhellach ar gyfer eu cwsmeriaid. Bydd hyn yn annog cwmnïau i chwilio am ffyrdd arloesol o ddarparu gwell gwasanaethau i gwsmeriaid a gwella'r amgylchedd.



**Mynd ymhellach:** Yn ogystal â'n pecyn cyfredol o fesurau, sy'n annog cwmnïau i weithredu'n unigol mewn modd arloesol, rydym yn ystyried sut y gallwn ysgogi arloesedd yn ehangach o fewn y sector. Rydym wedi nodi nifer o ymyriadau posibl yn ein [dogfen strategaeth ddatblygol](#). Rydym ar [hyn o bryd yn ymgynghori](#) ynghylch mecanwaith ariannol cystadleuol i gefnogi mentrau arloesol cydweithredol a darparu buddion tymor hir i gwsmeriaid. Nid yw lefel y cyllid arfaethedig wedi'i phenderfynu eto ond, fel dangosydd cynnar, mae'n debygol o fod oddeutu £200 miliwn wedi'i wasgaru ar draws yr holl gwsmeriaid yng Nghymru a Lloegr ar gyfer y cyfnod 2020-25. Bydd cyfanswm y cyfraniad fesul cwmni, felly, yn llawer llai. Byddai cwmnïau'n ei ddychwelyd i gwsmeriaid pe na fyddai'n cael ei wario ar arloesedd. Byddwn yn nodi canlyniad yr ymgynghoriad hwn pan fyddwn yn gwneud ein penderfyniadau terfynol.

## Y tymor hir

Yn ein methodoleg derfynol, heriwyd cwmnïau gennym i gynllunio ar sail tymor hir ac i'w cynlluniau busnes adlewyrchu strategaethau tymor hwy a'u cynlluniau rheoli adnoddau dŵr.

Anogwyd cwmnïau gennym i ystyried y cydbwysedd priodol rhwng fforddiadwyedd tymor byr a fforddiadwyedd tymor hir, cydnerthedd a pherfformiad.

Mae ein heriau wedi'u hadlewyrchu mewn enghreifftiau cadarnhaol o gynllunio tymor hir a gyflwynwyd fel rhan o gynlluniau busnes cwmnïau, megis gweledigaeth strategol 2050 Dŵr Cymru, sy'n darparu asesiad lefel uchel o dueddiadau yn y dyfodol a fydd yn cael effaith ar gydnerthedd y busnes.

## Mae ein penderfyniadau drafft yn cefnogi dull tymor hir o gynllunio a chyflenwi, trwy:



### **Buddsoddi i gwrdd ag anghenion cwsmeriaid yn y dyfodol o ran cyflenwad dŵr:**

Bydd ein penderfyniad drafft yn darparu cyllid i gael atebion a rhaglenni newydd cyflenwad dŵr i reoli'r galw am ddŵr sy'n gyson â'r anghenion a nodwyd yn y cynlluniau rheoli adnoddau dŵr, sy'n cynnwys newid yn yr hinsawdd, diogelu'r amgylchedd, a thwf y boblogaeth. Mae'r rhain yn cynnwys atebion ar gyfer cydnerthedd sychder difrifol a gweithgareddau effeithlonrwydd dŵr i gefnogi cwsmeriaid i leihau eu defnydd o ddŵr.



### **Hyrwyddo cynaliadwyedd tymor hir mewn cynllunio dŵr gwastraff:**

Rydym wedi croesawu cwmpas y Rhaglen Amgylcheddol Genedlaethol a ddatblygwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Rydym yn archwilio cynlluniau cwmnïau i sicrhau eu bod yn cyflwyno'r rhaglen yn effeithlon. Yn ogystal, rydym wedi herio cwmnïau i ddarparu rhaglen waith fanwl i gyflwyno cynlluniau rheoli priodol ac amserol o ran draenio dŵr a dŵr gwastraff. Bydd y cynlluniau hyn, yn eu tro, yn llywio eu cynlluniau busnes PR24. Bydd ein penderfyniad drafft hefyd yn cyflwyno rheolaeth ar wahân ar gyfer bioadnoddau. Mae'r rheolaeth hon wedi'i chynllunio i annog rheolwyr i ganolbwyntio ar weithgareddau bioadnoddau ac felly i annog cwmnïau i ddefnyddio a masnachu'r adnodd hwn mewn modd mwy effeithlon a chynaliadwy, er enghraifft wrth gynyddu'r broses o drawsnewid gwastraff i ynni.



**Cynnal safon uchel ansawdd dŵr yfed yn y tymor hir:** Rydym yn gosod ymrwymiad perfformiad cyffredin ar gwmnïau yng Nghymru ynghylch ansawdd y cyflenwad dŵr. Mesurir ansawdd yn erbyn y mynegai risg cydymffurfio, y mae'r Arolygiaeth Dŵr Yfed wedi'i ddatblygu mewn ymgynghoriad â'r diwydiant. Fel y nodwyd uchod, rydym hefyd yn caniatáu mwy o arian i'r ddau gwmni yng Nghymru i gael gwared â phibellau plwm o'r rhwydwaith cyflenwi dŵr.



**Ymgysylltu â chwsmeriaid ynghylch materion tymor hir:** Wrth ddatblygu eu cynlluniau, roeddem yn disgwyl i gwmnïau ymgysylltu â'u cwsmeriaid ynghylch materion tymor hwy megis cydnerthedd, ac ystyried anghenion a gofynion cwsmeriaid y dyfodol. Roedd hyn yn cynnwys, ond heb ei gyfyngu i'r canlynol:

- tystiolaeth annibynnol gan eu grwpiau her cwsmeriaid ar ansawdd yr ymgysylltu; ac
- i ba raddau y caiff safbwyntiau cwsmeriaid eu hadlewyrchu yng nghynlluniau'r cwmni.

Er enghraifft, eglurodd Hafren Dyfrdwy ei fod yn cynnal ymchwil iechyd a chydnerthedd asedau penodol, a oedd yn llunio ymrwymadau perfformiad a phenderfyniadau buddsoddi. Archwiliodd Dŵr Cymru faterion tymor hir a materion rhwng cenedlaethau gyda chwsmeriaid y dyfodol wrth ddefnyddio ei Fwrdd Ieuenctid. Helpodd eu barn i lunio dogfen strategaeth Dŵr Cymru 2050 a'r cynllun busnes ar gyfer 2020-2024.

## Marchnadoedd a chystadleuaeth

Mae ein dull rheoleiddio yn gyson â pholisi Llywodraeth Cymru i beidio ag ymestyn cystadleuaeth manwerthu neu gyflwyno cystadleuaeth i fyny'r gadwyn gyflenwi.



Yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru, rydym wedi ceisio ystyried cyfleoedd lle y gall hyrwyddo marchnadoedd helpu i gyflawni blaenoriaethau eraill Llywodraeth Cymru, megis:

- fforddiadwyedd;
- arloesedd;
- cydnerthedd a;
- chanolbwyntio'n gryf ar y cwsmeriaid.

Wrth asesu cynigion cwmnïau yng Nghymru yn y maes hwn, rydym hefyd wedi bod yn ymwybodol o farn Llywodraeth Cymru na ddylai unrhyw gystadleuaeth danseilio dilysrwydd y rhwydwaith cyflenwi dŵr a charthffosiaeth, neu atebolrwydd ymgymeryr.

Mae Llywodraeth Cymru wedi penderfynu peidio â chynnwys cystadleuaeth i fyny'r gadwyn gyflenwi. Felly ni fydd y model marchnad ddwyochrog ar gyfer adnoddau dŵr rydym yn ei roi ar waith ar gyfer cwmnïau y mae eu hardaloedd yn gyfan gwbl neu'n bennaf yn Lloegr yn berthnasol, felly, i gwmnïau presennol y mae eu hardaloedd yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru.

### **Bydd ein penderfyniadau drafft yn hyrwyddo datblygiad marchnadoedd yng Nghymru, i'r graddau bod hyn yn gyson â pholisi Llywodraeth Cymru, trwy:**



**Greu marchnadoedd newydd mewn bioadnoddau:** Trwy ganiatáu i gwmnïau gaffael gwasanaethau bioadnoddau gan amrywiaeth o gyflenwyr, byddwn yn datgloi effeithlonrwydd y gellir ei ail-fuddsoddi yn y meysydd y mae cwsmeriaid yn eu gwerthfawrogi fwyaf. Rhoddodd Dŵr Cymru enghraifft dda o sut i gynnal asesiad cychwynnol o gyfleoedd yn y farchnad, cynnal dadansoddiad geo-ofodol gan ddefnyddio gwybodaeth am y farchnad bioadnoddau sydd ar gael yn gyhoeddus. Dangosodd y cwmni fod ganddo 21 o safleoedd sy'n cynhyrchu slwtsh crai sy'n agosach, yn ôl pellter ffordd, i'r canolfannau triniaeth a weithredir gan gwmnïau dŵr eraill nag ydynt i'w canolfannau triniaeth ei hun. Cyflwynodd y dadansoddiad hwn ddangosydd cychwynnol o raddfa'r posibiliadau a lle y dylai edrych i gyflawni gwaith pellach.



### **Gweithredu ein fframwaith newydd ar gyfer caffael**

**uniongyrchol:** Mae caffael uniongyrchol ar gyfer cwsmeriaid yn hyrwyddo arloesedd a chydnerthedd trwy ganiatáu i gyfranogwyr newydd ddod â syniadau a dulliau newydd o gyflwyno prosiectau allweddol lle gall fod o fwy o werth i gwsmeriaid. Rydym yn annog cwmnïau dŵr i dendro'n gystadleuol am weithredu prosiectau gwella priodol ar raddfa fawr ym meysydd ariannu, dylunio ac adeiladu. Gall hyn leihau'r costau y mae cwsmeriaid yn eu talu ar gyfer yr asedau newydd mwyaf neu fwyaf drud, trwy gynyddu pwysau cystadleuol ar gostau prosiect ac ariannu, ac ysgogi arloesedd wrth gynnig fwy o ddewis. Yn ein penderfyniadau drafft, rydym wedi nodi mai gwaith trin newydd Dŵr Cymru ym Merthyr yw'r gwerth gorau am arian os caiff ei ddarparu gan ddull 'caffael uniongyrchol ar gyfer cwsmeriaid'. Mae'r gwaith o adeiladu'r gweithfeydd trin newydd yn rhychwantu rheolaethau prisiau 2020-25 a 2025-30, felly bydd dull 'caffael uniongyrchol ar gyfer cwsmeriaid' yn rhoi mwy o sicrwydd tymor hir ar gyfer darparu'r cynllun hwn. Byddwn hefyd yn sicrhau bod rheolaethau digonol ar waith i ddiogelu na fydd cynllun 'caffael uniongyrchol ar gyfer cwsmeriaid' a ddarperir yn peryglu dilysrwydd y rhwydwaith neu atebolrwydd ymgymrwyr mewn unrhyw fodd.

## **Cydnerthedd**

Mae cydnerthedd yn hanfodol i gwsmeriaid y presennol a'r dyfodol yng Nghymru. Mae'r sector dŵr yn wynebu heriau cydnerthedd difrifol gan gynnwys newid yn yr hinsawdd a thwf y boblogaeth, sy'n cyflwyno bygythiadau gwirioneddol i gydnerthedd asedau, adnoddau dŵr a gwasanaethau i gwsmeriaid. Mae cyfuniad y bygythiadau a'r newidiadau hyn yn nisgwyliaidau pobl - gan gynnwys sut rydym yn trin yr amgylchedd ei hun - yn peri bod mynd i'r afael â'r heriau cydnerthedd hyn yn fater brys.

Mae hon yn flaenoriaeth allweddol i Lywodraeth Cymru a ninnau, ac mae cydnerthedd tymor hir yn un o'r themâu allweddol ar gyfer PR19.

Mae cwsmeriaid yn disgwyl gwasanaethau dŵr a dŵr gwastraff dibynadwy a all osgoi, ymdopi ac adfer ar ôl toriad, yn ogystal â diogelu'r amgylchedd naturiol. Mae hyn yn golygu er mwyn gwneud penderfyniadau ynghylch eu gweithrediadau, cynnal a chadw a buddsoddi yn y tymor byr a hir, mae angen y:

- wybodaeth;
- systemau;
- prosesau;
- llywodraethu;
- galluedd; a
- chyllid cywir ar gwmnïau dŵr.

Mae angen bod cydnerthedd gweithredol, ariannol a chorfforaethol ganddynt: i fod yn 'gydnerth drwyddi draw'.

Yn ein hasesiad cychwynnol o gynlluniau busnes, profwyd cwmnïau gennym i weithredu ein saith egwyddor cynllunio cydnerthedd yn eu cynlluniau busnes, sy'n adlewyrchu ein dyletswydd cydnerthedd:

- Egwyddor 1: Ystyried cydnerthedd drwyddi draw ar gyfer y tymor hir
- Egwyddor 2: Sector dŵr sy'n naturiol gydnerth
- Egwyddor 3: Ymgysylltu â chwsmeriaid
- Egwyddor 4: Ystyried dewisiadau ymyrraeth yn gyffredinol
- Egwyddor 5: Sicrhau datrysiadau gwerth gorau i gwsmeriaid
- Egwyddor 6: Canlyniadau a dull sy'n canolbwyntio ar y cwsmer
- Egwyddor 7: Sicrwydd a chymeradwyaeth derfynol gan y Bwrdd

Mae'n bwysig bod cynigion cwmnïau i wario arian cwsmeriaid i wella cydnerthedd yn seiliedig ar ddealltwriaeth o'r peryglon ynghylch cydnerthedd a sut y gellir gostwng y rhain orau. Mewn rhai achosion:

- nid yw cwmnïau wedi darparu golwg glir rhwng eu cynigion a gwell cydnerthedd i gwsmeriaid; neu
- maent wedi ceisio cyfiawnhau gwariant ychwanegol lle mae'r rhain yn fesurau y dylent fod yn eu gweithredu beth bynnag fel rhan o'u gweithrediadau bob dydd.

Yn yr achosion hyn, rydym wedi ymyrryd mewn cynlluniau ac wedi gwahodd cwmnïau i:

- ddarparu gwell tystiolaeth o'u dealltwriaeth o berygl; a
- chyfiawnhau gwariant ychwanegol arfaethedig mewn ymateb i benderfyniadau drafft.

Roeddem hefyd yn dymuno bod cwmnïau'n ymgysylltu a gweithio gyda chwsmeriaid ar eu dull ynghylch cydnerthedd a bod yn arloesol o ran sut maent yn rheoli ac yn mynd i'r afael â pheryglon trwy, er enghraifft:

- manteisio ar gyfleoedd i gydweithio â thrydydd partion a chwmnïau dŵr eraill; ac
- integreiddio adnoddau dŵr a dŵr gwastraff yn well.

Rydym yn disgwyl i gwmnïau nodi a gweithredu ar beryglon llifogydd, gan gynnwys yr heriau ychwanegol a grëir gan newid yn yr hinsawdd, a sicrhau bod y rhain yn cael eu hadlewyrchu yn eu cynlluniau buddsoddi a chyflawni. Cefnogir dulliau integredig ynghylch llifogydd dŵr gwastraff wrth ddatblygu cynlluniau draenio a dŵr gwastraff.

Mae iechyd asedau<sup>4</sup> yn elfen bwysig o gydnerthedd gweithredol ac yn ganolog i ddarparu gwasanaethau yn y tymor hir i gwsmeriaid. Rydym wedi gofyn i gwmnïau wneud set o ymrwymïadau perfformiad sy'n adlewyrchu iechyd asedau gwasanaethau dŵr a dŵr gwastraff, fel rhan o'u cynlluniau busnes.

Rydym wedi gwrthio cwmnïau i fabwysiadu dull 'llwybr deuol' i wella cydnerthedd adnoddau dŵr, gyda buddsoddiad mewn cyflenwadau dŵr newydd yn ategu mesurau i leihau'r galw am ddŵr. Yn ein methodoleg derfynol, roeddem yn disgwyl i gwmnïau ystyried ystod eang o opsiynau i gyflawni cydnerthedd tymor hir yn y cyflenwad dŵr, gan gynnwys:

- buddsoddi mewn cyflenwad newydd;
- rheoli galw;
- mesurau effeithlonrwydd dŵr;
- lleihau gollyngiadau dŵr;
- masnachu dŵr; a
- datrysiadau sy'n ymestyn y tu hwnt i ffiniau traddodiadol.

Rydym wedi gweithio'n agos gyda Cyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru yn ystod yr ymgynghoriad a'r asesiad o gynlluniau rheoli adnoddau dŵr drafft cwmnïau, sy'n helpu i ddiffinio'r angen am fuddsoddiad i gynnal a chadw'r cydbwysedd cyflenwad-galw yn ystod sychder. Nod y cydweithrediad hwn yw sicrhau bod y cynlluniau'n cwrdd ag anghenion yr amgylchedd, sy'n gyfrifol am newid yn yr hinsawdd, yn ogystal â disgwyliadau cwsmeriaid am gydnerthedd gwerth gorau. Rydym yn ystyried yr anghenion a nodwyd a'r atebion a ffefrir yn y cynlluniau rheoli adnoddau dŵr diweddaraf, ond byddwn yn cynnal dadansoddiad manylach o'r atebion arfaethedig wrth asesu'r cynllun busnes. Mae'r asesiad hwn fel arfer yn cynnwys gwybodaeth ychwanegol a

---

<sup>4</sup> Cynnal a chadw eitemau ffisegol, fel pibellau a charthffosyddion, sy'n caniatáu i gwmnïau ddarparu gwasanaethau dŵr a dŵr gwastraff.

diwygiedig, cyn gwneud ein penderfyniadau. Nod ein dull asesu yw sicrhau y cynllunnir buddsoddi i ddiogelu cydnerthedd sychder yn y tymor byr (2020-25) a'r tymor hwy (y tu hwnt i 2025). Mewn rhai achosion, rydym wedi derbyn atebion adnoddau dŵr na fyddent o bosibl yn cyflwyno buddion ar unwaith ond sy'n bwysig ar gyfer cydnerthedd sychder tymor hir.

Yn unol â'n hegwyddorion cynllunio cydnerthedd, roeddem yn disgwyl i gwmnïau ystyried 'cydnerthedd drwyddi draw', gyda barn wrthrychol a chynhwysfawr o'r peryglon y maent yn eu hwynebu. Rydym yn ystyried a yw cwmnïau wedi mabwysiadu dull systematig ac integredig o nodi ac asesu'r holl risgiau amrywiol i gydnerthedd systemau a gwasanaethau ledled y busnes. Roeddem hefyd yn disgwyl i gwmnïau ddefnyddio asesiad cadarn, gwrthrychol, cynhwysfawr ac â thystiolaeth dda o beryglon blaenoriaeth i gyflenwi'r gwasanaethau y mae eu cwsmeriaid yn dibynnu arnynt, yn ystod y pum mlynedd nesaf ac yn y tymor hwy.

Roedd yn ofynnol i'r asesiad hwn gynnwys ystyried y peryglon ynghylch:

- seilwaith;
- systemau;
- prosesau; a
- phobl.

Dylai hefyd ystyried peryglon a bygythiadau, megis

- ymosodiadau ffisegol a seiber;
- digwyddiadau llifogydd eithafol; a
- thoriadau i gyflenwadau ynni.

Tra bod rhai o'r agweddau unigol hyn wedi'u hystyried gan gynlluniau cwmnïau, mae angen iddynt wneud mwy i sicrhau bod 'cydnerthedd drwyddi draw' wedi'i sefydlu ar draws y busnes cyfan. O ganlyniad, rydym yn gofyn i gwmnïau ddatblygu cynlluniau gweithredu ar gyfer gweithredu dull sy'n seiliedig ar systemau tuag at gydnerthedd. Rydym yn dymuno bod cwmnïau'n dangos eu bod yn mabwysiadu fframwaith cydnerthedd integredig sy'n sail i'w gweithrediadau a'u cynlluniau ar gyfer y dyfodol.

Yn olaf, mae cwmnïau'n gyfrifol am sicrhau y bydd eu strwythurau ariannol yn gydnerth ar gyfer 2020-2025 ac yn y tymor hir. Roeddem yn disgwyl iddynt asesu eu cydnerthedd ariannol gan ddefnyddio profion straen rhagnodedig yn ogystal â rhai sy'n ymwneud â chwmnïau penodol, sy'n cynnwys ergydion cost a referniw. Roeddem hefyd yn disgwyl i gwmnïau ddangos bod ganddynt dulliau priodol o reoli a lliniaru perygl yn eu lle.

## Bydd ein penderfyniadau drafft yn gwella cydnerthedd y sector drwyddi draw, trwy:



**Fuddsoddi mewn cydnerthedd a chynaliadwyedd:** Yn ystod y cyfnod 2020-2025, bydd cwmnïau yng Ngymru'n buddsoddi £8 miliwn i wella cydnerthedd mewn dŵr a dŵr gwastraff. Rydym hefyd yn rhoi cyfanswm o £32.8 miliwn i gwmnïau yng Nghymru i fuddsoddi mewn mesurau i gynnal cydbwysedd cyflenwad-galw ar gyfer cydnerthedd sychder. Rydym yn herio cwmnïau i ddangos manteision cydnerthedd eu cynigion buddsoddi ac mae ein lwfans ar gyfer cynigion sydd â thystiolaeth dda.



**Cymell cwmnïau i atal llifogydd o garthffosyddion a digwyddiadau llygredd:** Mae cwmnïau Cymreig yn ymrwmo i ostyngiad o 37% mewn digwyddiadau llygredd erbyn 2024-25, yn ogystal â gostyngiad o 27% a 26% mewn digwyddiadau gorlifo, yn y drefn honno.



**Cyllid diogelwch:** Rydym yn darparu cyllid o £11 miliwn i ddiogelu yn erbyn bygythion ffisegol a seiber yng Nghymru. Mae'r uchod yn adeiladu ar y cyllid diogelu ffisegol a ddarparwyd yn ystod y cyfnod 2015-20 i sicrhau bod cwmnïau'n cydymffurfio â'r Cyfarwyddyd Mesurau Diogelwch ac Argyfwng (SEMD). Rydym hefyd yn darparu cyllid i wella diogelwch seiber yn y sector. Mae hyn yn cynnwys cydymffurfio â'r Cyfarwyddyd Systemau Rhwydwaith a Gwybodaeth (NIS).



**Herio cynlluniau cwmnïau ar iechyd asedau:** Rydym wedi ymyrryd mewn ymrwymïadau perfformiad iechyd asedau cwmnïau yng Nghymru lle nad yw'r ymrwymïadau hyn yn gwella eu hiechyd asedau yn ystod 2020-2025 a lle nad ydynt yn gystadleuol ag ymrwymïadau perfformiad cwmnïau eraill yng Nghymru a Lloegr. Bydd gofyn i'r ddau gwmni gynnal perfformiad y rhwydwaith carthffosiaeth yn unol â'u perfformiad hanesyddol gorau. Mae'r ddau gwmni wedi ymrwymo y ceir gwelliant bach ym mherfformiad y nifer o atgyweiriadau prif gyflenwad a wneir. Ar gyfer gwaith trin dŵr, gofynnir i'r ddau gwmni sicrhau bod eu gwaith trin dŵr yn cwrdd â gofynion cydymffurfio bob amser.



**Cymell buddsoddi mewn asedau:** Rydym hefyd wedi sicrhau y cefnogir ymrwymïadau perfformiad iechyd asedau gan gymhelliannau ariannol priodol. Mae gan gwmnïau yng Nghymru ein pedwar ymrwymïad perfformiad iechyd asedau cyffredin ochr yn ochr â'u hymrwymïadau perfformiad iechyd asedau pwrpasol. Bydd y rhain yn sicrhau bod gan gwmnïau y cymhelliannau i fuddsoddi ynddynt a chadw eu hasedau fel eu bod yn gallu darparu gwasanaethau nawr ac i'r dyfodol, a dyma'r hyn sydd o bwys i gwsmeriaid.



**Sicrhau cydnerthedd ariannol:** Mae Hafren Dyfrdwy yn ogystal â Dŵr Cymru wedi darparu sicrwydd gan y Bwrdd y bydd y modd i'w cyllido'n parhau ac y byddant yn gallu cadw cydnerthedd ariannol ar sail eu strwythurau ariannol trwy gydol y cyfnod 2020-2025. Fodd bynnag, fel pob cwmni arall, rydym yn gofyn am sicrwydd pellach gan y Bwrdd ynghylch cydnerthedd ariannol hir dymor yng nghyd-destun gostyngiad pellach i gost cyfalaf ers ein methodoleg derfynol PR19 a'n hymyriadau yn eu cynlluniau busnes.

## Canolbwyntio'n gryf ar y cwsmeriaid

Roedd gwasanaeth cwsmeriaid gwych yn un o bedair thema allweddol ein methodoleg derfynol PR19, gan adlewyrchu'r pwysigrwydd rydym yn ei roi ar gwmnïau sy'n ymateb i'r hyn a nodwyd sy'n well gan gwsmeriaid a'u blaenoriaethau. Wrth weithredu eu busnesau a datblygu eu cynlluniau busnes, rydym yn disgwyl i gwmnïau yng Nghymru ymgysylltu'n weithredol, ystyrion ac effeithiol gyda'u cwsmeriaid a'u rhanddeiliaid. Bydd hyn yn eu helpu i ddatblygu dealltwriaeth ddofn o'r hyn sy'n well gan gwsmeriaid am wasanaethau, canlyniadau a buddsoddiad, a fforddiadwyedd eu cynllun yn ystod y tymor hir.

Yn ystod ein hadolygiad o gynlluniau busnes, fel rhan o'n hasesu cychwynnol ac yn ystod datblygu ein penderfyniadau drafft, profom ansawdd ymgysylltu â chwsmeriaid cwmnïau yng Nghymru, gan gynnwys eu dull i gwsmeriaid yn cymryd rhan a pha mor dda yr adlewyrchwyd barn cwsmeriaid ar draws eu cynlluniau busnes. Er i ni ddod o hyd i feysydd pryder yng nghynlluniau'r ddau gwmni, rydym yn ystyried bod Dŵr Cymru wedi darparu tystiolaeth o ymgysylltu cwsmer gwych yn ystod ein hasesiad cychwynnol o gynlluniau. Cyflwynodd Dŵr Cymru yn ogystal â Hafren Dyfrdwy dystiolaeth ychwanegol a boddhaol ynghylch barn eu cwsmeriaid wrth gefnogi ymateb pob cwmni i'n hasesiad cychwynnol o gynllun y cwmni.

Mae dau o'n 14 ymrwymiad perfformiad cyffredin yn ymwneud yn uniongyrchol â phrofiad cwsmeriaid, gydag un ymrwymiad ar brofiad cwsmeriaid manwerthu preswyl ac un ar brofiad cwsmeriaid gwasanaethau datblygwr. Bydd ein mesur cwsmeriaid o brofiad (C-MeX) yn cynnwys profiadau nid yn unig y cwsmeriaid sy'n cysylltu â'u cwmnïau, ond hefyd gwsmeriaid nad ydynt yn cysylltu, fel y caiff cwmnïau eu cymell i gyflawni ar gyfer eu holl gwsmeriaid.

I ddatblygwyr, bydd mesur profiad gwasanaethau'r datblygwr (D-MeX) newydd yn cymell cwmnïau i ddarparu gwasanaeth cwsmeriaid rhagorol i gwsmeriaid cysylltiadau newydd. Yn ogystal, mae'n rhaid bod gan gwmnïau yng Nghymru o leiaf un ymrwymiad perfformiad penodol ar ansawdd y gwasanaethau manwerthu y maent yn eu darparu i'w cwsmeriaid busnes.

Nodom yn ein datganiad sefyllfa '[Putting the sector in balance](#)' ein bod yn gofyn i gwmnïau nodi'n glir yn eu cynlluniau busnes sut bydd eu polisiau difidend a pholisiau tâl gweithredol cysylltiedig â pherfformiad ar gyfer 2020-25 yn peri i fuddiannau rheolaeth y cwmni a buddsoddwyr fod yn gydnaws â buddiannau cwsmeriaid, Maer ddau gwmni



yng Nghymru wedi mynd ati i ddangos eu bod yn symud tuag at gwrdd â'n disgwyliadau, er bod gan y ddau fwy i'w wneud o hyd i ddangos eu bod yn cwrdd â'n disgwyliadau'n llawn, gan gydnabod bod Dŵr Cymru'n gwmni sy'n gyfyngedig trwy warant. Mae ein penderfyniadau drafft yn nodi meysydd o arfer gorau ymhlith y cwmnïau yng Nghymru a reoleiddir gennym ac rydym yn disgwyl iddynt barhau i gymryd camau i wella dilysrwydd yn y meysydd hyn.

### **Mae ein penderfyniadau drafft yn cymell bod gan gwmnïau ganolbwynt cryf ar y cwsmer trwy:**



#### **Ddarparu gwasanaeth a phrofiad gwyh i gwsmeriaid**

**presennol:** Wrth ddefnyddio amrywiaeth eang o fesurau i atgyfnerthu cydnerthedd, dylai cwsmeriaid yng Nghymru elwa o berfformiad chwarter uchaf ar gyfer toriadau cyflenwad dŵr mwy na 3 awr, a gostyngiad o 27% mewn digwyddiadau gorlif carthffosiaeth mewnol yn y cyfnod 2020-25. Bydd cwmnïau hefyd yn cael eu cymell i ddarparu gwasanaeth rhagorol i'w cwsmeriaid presennol trwy ein mesurau profiad cwsmer a datblygwr newydd, C-MeX a D-MeX.



#### **Newid fesul cam mewn ymgysylltu â chwsmeriaid:**

Defnyddiom dystiolaeth a gyflwynwyd gan bob cwmni a'i grŵp herio cwsmeriaid (CCG) i asesu ansawdd ymgysylltiad a chyfranogiad cwsmeriaid y cwmni<sup>5</sup> a pha mor dda yr ymgorfforir barn cwsmeriaid yng nghynllun busnes y cwmni a gweithrediadau busnes parhaus. At ei gilydd, ymgysylltodd cwmnïau yng Nghymru â thua 45,000 o gwsmeriaid yn ystod datblygiad eu cynlluniau PR19.

---

<sup>5</sup> Gweler adroddiad [Tapped In](#)



**Lleihau effaith sychder ar gwsmeriaid:** Os ceir sychder yn y dyfodol, bydd cwmnïau'n gwneud mwy i sicrhau yr effeithir ar gwsmeriaid cyn lleied â phosibl. Dylai ein hymrwymadau perfformiad cyffredin ynghylch lleihau'r risg yr effeithir ar gwsmeriaid gan sychder sicrhau bod o dan 5% o gwsmeriaid mewn perygl o brofi cyfyngiadau difrifol e.e. safbibellau neu doriadau rota, yn ystod sychder.



**Mwy yn derbyn cymorth cofrestr gwasanaeth blaenoriaeth:**

Cyflwynom ymrwymiad perfformiad cyffredin ar gofrestrau gwasanaeth blaenoriaeth (cofnod o gwsmeriaid sydd wedi mynegi angen am help neu wasanaeth penodol) - bydd yr uchod yn cymell cwmnïau i:

- sicrhau bod o leiaf 7% o gwsmeriaid ar y gofrestr gwasanaeth blaenoriaeth erbyn 2015; a
- sicrhau bod y gofrestr yn gywir ac wedi'i diweddarau.

O ganlyniad i'r hyn a wnaethom, disgwylir y bydd nifer y cwsmeriaid a gofrestrir ar gyfer gwasanaethau blaenoriaeth yng Nghymru yn cynyddu 81,000 yn y blynyddoedd 2020-25.



**Mesurau cymorth ychwanegol i helpu cwsmeriaid mewn amgylchiadau agored i niwed:** Mae Dŵr Cymru'n cynllunio cyflwyno'n raddol ei ddull seiliedig ar le i gefnogi cwsmeriaid agored i niwed, a dreialwyd yn y Rhondda Fach, i bum lleoliad ychwanegol yn y cyfnod i 2025.

## Rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy

Cydnabyddir pwysigrwydd buddsoddi mewn adnoddau naturiol a gwneud ein hecosystemau'n fwy cydnerth gan [Adroddiad Cyflwr Adnoddau Naturiol](#) Cyfoeth Naturiol Cymru a [Strategaeth Ddŵr i Gymru](#) Llywodraeth Cymru. Mae ein dull i gwmnïau yng Nghymru yn y broses adolygu prisiau wedi annog cwmnïau i ymgysylltu â chwsmeriaid a rhanddeiliaid ar reolaeth gynaliadwy o adnoddau naturiol ac wedi ceisio cymell cwmnïau i reoli adnoddau naturiol mewn modd sy'n gynaliadwy ar gyfer y tymor hir.

Yn ein methodoleg PR19 derfynol, roedd yn ofynnol gennym fod gan gwmnïau gwmpas cynhwysfawr o'u heriau amgylcheddol yn eu hymrwymadau perfformiad penodol a'u bod yn ystyried yr hyn oedd yn well gan gwsmeriaid a, lle bo'n briodol, yr amgylchedd, bioamrywiaeth a chyfalaf naturiol wrth osod eu lefelau ymrwymiad perfformiad a chymhellion cyflawni canlyniadau.

Bydd yr ymrwymadau perfformiad amgylcheddol penodol hyn yn ategu'r mecanwaith cymhelliant tynnu dŵr (AIM), y mae gan bob cwmni ymrwymiad perfformiad penodol yn ei gylch. Mae'r AIM yn cymell cwmnïau dŵr i leihau effaith amgylcheddol tynnu dŵr o safleoedd amgylcheddol sensitif yn ystod cyfnodau diffiniedig o lif dŵr wyneb isel.

### **Mae ein penderfyniadau drafft yn cefnogi rheolaeth gynaliadwy adnoddau naturiol yng Nghymru, trwy:**



**Hyrwyddo rheolaeth gynaliadwy:** Rydym yn cefnogi mabwysiadu dulliau 'draenio cynaliadwy' i reoli dŵr wyneb i leihau gorlifo o orlifiadau carthffosydd cyfun, er enghraifft, rhaglen Culfor Menai Dŵr Cymru. Yn fwy cyffredinol, ymddengys bod cydnerthedd amgylcheddol a gwerth cyfalaf naturiol yn y camau cynnar o fewn cynlluniau cwmnïau.



**Lleihau gwastraff dŵr:** Mae'r ddau gwmni yng Nghymru yn ymrwmo i leihad gwerth 15% yng nghyfartaledd blynyddol gollyngiadau dros gyfnod yr adolygiad prisiau. Dylai hyn arbed 25 miliwn o litrau o ddŵr fesul diwrnod yng Nghymru yn ystod y cyfnod 2020-25.



**Lleihau defnydd dŵr:** Bydd cwmnïau yng Nghymru'n mabwysiadu amrywiaeth o fesurau i leihau defnydd dŵr yn y cartref yn gyffredinol 30 miliwn o litrau o ddŵr fesul diwrnod o ganlyniad i helpu'u cwsmeriaid i ddefnyddio dŵr yn fwy effeithlon. Dylai hyn ostwng y baich ar gyflenwadau dŵr ymhellach. Fesul pen o'r boblogaeth, disgwylir y bydd defnydd yn gostwng i 136 o litrau fesul unigolyn, fesul diwrnod yn ardal Dŵr Cymru, ac i 135 o litrau fesul unigolyn, fesul diwrnod yn ardal Hafren Dyfrdwy. Canlyniad gweithgareddau effeithlonrwydd dŵr ac ymgyrchoedd addysgol yw hyn. Rydym wedi derbyn yr ymrwymiad a wnaethpwyd gan Hafren Dyfrdwy, ond wedi ymyrryd i dynhau ymrwymiad Dŵr Cymru o 138 i 136 o litrau fesul cwsmer, fesul diwrnod, sy'n cyfateb i chwarterel uchaf gostyngiadau a addawyd gan gwmnïau yng Nghymru a Lloegr.

Ofwat (The Water Services Regulation Authority) is a non-ministerial government department. We regulate the water sector in England and Wales. Our vision is to be a trusted and respected regulator, working at the leading edge, challenging ourselves and others to build trust and confidence in water.

Ofwat  
Centre City Tower  
7 Hill Street  
Birmingham B5 4UA

Phone: 0121 644 7500  
Fax: 0121 644 7533  
Website: [www.ofwat.gov.uk](http://www.ofwat.gov.uk)  
Email: [mailbox@ofwat.gov.uk](mailto:mailbox@ofwat.gov.uk)

July 2019

© Crown copyright 2019

This publication is licensed under the terms of the Open Government Licence v3.0 except where otherwise stated. To view this licence, visit [nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3](http://nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3).

Where we have identified any third party copyright information, you will need to obtain permission from the copyright holders concerned.

This document is also available from our website at [www.ofwat.gov.uk](http://www.ofwat.gov.uk).

Any enquiries regarding this publication should be sent to us at [mailbox@ofwat.gov.uk](mailto:mailbox@ofwat.gov.uk).

